# YOUR NEW SEAGULL-PROOF SACKS FOR GENERAL WASTE




**cardiff.gov.uk/seagullproofsacks**

STRONGER
FAIRER
GREENER

CARDIFF
CAERDYDD

## How the Sacks Help Reduce Litter and Improve Cleanliness

We're introducing seagull-proof sacks for general waste to help keep our streets cleaner and tidier. This initiative aims to reduce litter and improve cleanliness in your area. By using these sacks, you can ensure that your waste is securely contained, preventing animals from tearing open bags and creating a mess.




- **You will receive two 70ltr seagull-proof sacks as standard, which is the same capacity as a 140ltr bin.**
- **Your collection day will not change and your seagull-proof sacks will still be collected on the same day, every 2 weeks.**
- **Your sacks have already been labelled upon delivery. Please make sure to keep your sacks labelled with your address. If your sacks are not properly labelled, they will not be collected.**

## How to Use the Seagull-proof Sacks for General Waste

### Prepare Your Waste

Please place your waste in a bin bag of any colour before putting it into your sacks. Do not use plastic carrier bags or place rubbish directly into the seagull-proof sacks.




### Check for Recyclables

Ensure that no recyclable items are in your general waste. Separate: Metals, plastic and cartons into you red sacks, and paper/cardboard into the blue sacks provided. Glass should go in the blue caddy, and bagged food waste should go in your brown food waste bin.



## Putting the Waste Inside the Seagull-proof Sacks

Once your waste is securely contained within a bin liner, place the bin liners inside the seagull-proof sacks. We will only collect a maximum of two bin liners of waste from each sack.




## Secure the Sacks

Make sure the seagull-proof sacks are securely closed using the velcro strips at the top to prevent seagulls from accessing the waste inside.

## Putting your Sacks Out for Collection

On your scheduled collection day, place the seagull-proof sacks outside for collection. Make sure the sacks are clearly labelled with your address and are placed in the correct location before 6am on the day of collection, but no earlier than 4.30pm the day before.
To see your collection day, please visit:
**www.cardiff.gov.uk/collections**



## Bring the Sacks Back In

After the waste has been collected, bring the seagull-proof sacks back in as soon as possible to keep it clean and ready for the next use.



## Keep the Sacks Clean

Occasionally clean your seagull-proof sacks with water and diluted washing up liquid if necessary. This will help maintain its condition and effectiveness.



## FAQs

**Do I have to use the seagull-proof sacks?**
Yes. For the seagull-proof sacks to work everyone must use them. Any rubbish bags left outside the seagull-proof sacks will not be collected, and may result in enforcement action, including the possibility of a fine.

**Why can I only place two full bin liners inside my sacks?**
The reason you are only allowed to place two full bin liners inside your new seagull-proof sacks is due to operational efficiency and safety. Our collection crews need to handle sacks quickly and efficiently without having to open them and sort through multiple carrier bags or other bags. This process ensures that the collection is done in a timely manner and reduces the risk of injury to the crews.

**Can I have an extra seagull-proof sack?**
Each sack is designed to hold up to 70ltrs of waste. If you find that your seagull-proof sack is filling up quickly with your general waste, please ensure that nothing recyclable is being put in your sacks. All metals, plastic, and cartons must go in your red sack, and paper/card must go in the blue sack provided, glass in the blue caddy and bagged food waste should go in your brown food waste bin.

**What happens if I leave my sacks out?**
If sacks are left out after they have been emptied, enforcement action may be taken, which may result in you receiving a fine.

**How do I keep my sacks clean?**
The best way to make sure your seagull-proof sacks stay clean is to use good quality bin liners to contain all your rubbish and bring the sacks in as soon as possible after collection.

**What happens if my seagull-proof sacks are not emptied on collection day?**
If your rubbish is correctly placed in bin liners inside the seagull-proof sacks, with your address clearly labelled on both sacks and they were put out on time but have not been collected by 10pm, please report it through the app or website
**www.cardiff.gov.uk/missedcollections**

**What happens if my sack is lost, stolen or damaged?**
If your sack is lost, stolen or damaged, please contact **Connect to Cardiff (C2C)** on **029 2087 2087** to request a replacement. You can also request a new one through the app or website **www.cardiff.gov.uk/SeagullProofSacks**

## Thank you!

Thank you for taking the time to learn about the seagull-proof sacks for general waste. By participating and using these specially designed sacks, you are helping to keep your area cleaner and safer for everyone. Your cooperation is essential in reducing litter, improving the environment, and enhancing the overall quality of life in our community. Together, we can make a significant difference.



**cardiff.gov.uk/seagullproofsacks**

## Cwestiynau Cyffredin

**Oes rhaid i mi ddefnyddio'r sachau atal gwylanod?**
Oes. Er mwyn i'r sachau atal gwylanod weithio, rhaid i bawb eu defnyddio. Ni fydd unrhyw fagiau sbwriel sy'n cael eu gadael y tu allan i'r sachau atal gwylanod yn cael eu casglu, a gall hyn arwain at gamau gorfodi, gan gynnwys y posibilrwydd o ddirwy.

**Pam mai dim ond dau fag sbwriel llawn y gallaf eu rhoi yn fy sachau?**
Y rheswm y caniateir i chi rhoi dau fag sbwriel llawn yn unig yn eich sachau atal gwylanod newydd yw oherwydd effeithlonrwydd gweithredol a diogelwch. Mae angen i'n criwiau gasglu'r sachau'n gyflym ac yn effeithlon heb orfod eu hagor a chwilio trwy nifer o fagiau siopa neu fagiau eraill. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y casgliad yn cael ei wneud mewn modd amserol ac mae'n lleihau'r risg o anafiadau i'r criwiau.

**A allaf gael sach atal gwylanod ychwanegol?**
Mae pob sach wedi'i dylunio i ddal hyd at 70 litr o wastraff. Os ydych chi'n sylwi bod eich sach atal gwylanod yn llenwi â gwastraff cyffredinol yn gyflym, gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw eitemau ailgylchadwy yn cael eu rhoi ynddi. Rhaid i fetelau, plastigau a chartonau fynd yn eich sach goch, a phapur/cardbord fynd yn y sach las, rhaid i wydr fynd yn y cadi glas, a rhaid i wastraff bwyd gael ei roi mewn bag gwastraff bwyd ac yna ei roi yn eich bin gwastraff bwyd brown.

**Beth sy'n digwydd os byddaf yn gadael fy sachau allan?**
Os caiff sachau eu gadael allan ar ôl iddynt gael eu gwagio, gellir cymryd camau gorfodi, a allai arwain at ddirwy i chi.

**Sut ydw i'n cadw fy sachau yn lân?**
Y ffordd orau o wneud yn siŵr bod eich sachau atal gwylanod yn aros yn lân yw rhoi eich sbwriel mewn bagiau sbwriel o ansawdd da a dod â'r sachau i mewn cyn gynted â phosibl ar ôl eu casglu.

**Beth sy'n digwydd os nad yw fy sachau atal gwylanod yn cael eu gwagio ar y diwrnod casglu?**
Os yw'ch sbwriel wedi cael ei roi'n gywir mewn bag sbwriel y tu mewn i'r sachau atal gwylanod, gyda'ch cyfeiriad wedi'i labelu'n glir ar y ddwy sach, a rhoddwyd y sachau allan yn brydlon, ond maen nhw heb gael eu casglu erbyn 10pm, rhowch wybod am hyn ar yr ap neu'r wefan **www.caerdydd.gov.uk/casgliadauafethwyd**

**Beth fydd yn digwydd os caiff fy sachau eu colli, eu dwyn neu eu difrodi?**
Os bydd eich sach yn cael ei cholli, ei dwyn neu ei difrodi, cysylltwch â **Cysylltu â Chaerdydd (C2C)** ar **029 2087 2088** i ofyn am un arall. Gallwch hefyd ofyn am un newydd drwy'r ap neu ar y wefan **caerdydd.gov.uk/sachauatalgwylanod**

## Diolch!


Diolch i chi am gymryd yr amser i ddysgu am y sachau atal gwylanod ar gyfer gwastraff cyffredinol. Trwy gymryd rhan a defnyddio'r sachau hyn sydd wedi'u dylunio'n arbennig, rydych chi'n helpu i gadw'ch ardal yn lanach ac yn fwy diogel i bawb. Mae eich cydweithrediad yn hanfodol er mwyn lleihau sbwriel, diogelu'r amgylchedd, a gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol yn ein cymuned. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth sylweddol.



**caerdydd.gov.uk/sachauatalgwylanod**

## Rhoi'r gwastraff yn y sachau atal gwylanod

Ar ôl rhoi eich gwastraff mewn bagiau sbwriel, rhowch y bagiau sbwriel yn y sachau atal gwylanod. Byddwn ond yn casglu uchafswm o ddau fag o sbwriel o bob sach.




## Cau'r sachau'n dynn

Gwnewch yn siŵr bod y sachau atal gwylanod wedi'u cau'n dynn gan ddefnyddio'r stribedi velcro ar yr ochr uchaf i atal gwylanod rhag gallu cyrraedd y gwastraff y tu mewn.

## Rhoi eich sachau ar y stryd i'w casglu

Ar y diwrnod mae eich gwastraff yn cael ei gasglu, rhowch y sachau atal gwylanod tu fas i'w casglu. Gwnewch yn siŵr bod y sachau wedi'u labelu'n glir gyda'ch cyfeiriad, a'u bod wedi'u rhoi yn y lleoliad cywir cyn 6am ar ddiwrnod y casgliad, ond dim cynharach na 4.30pm y diwrnod cynt. Ewch i **www.caerdydd.gov.uk/casgliadau** i weld diwrnod eich casgliadau.



## Dewch â'r sachau yn ôl i mewn

Ar ôl i'r gwastraff gael ei gasglu, dewch â'r sachau atal gwylanod yn ôl i mewn cyn gynted â phosibl i'w cadw'n lân ac yn barod ar gyfer y tro nesaf.



## Cadw'r sachau'n lân

Glanhewch eich sachau atal gwylanod gyda dŵr a hylif golchi llestri gwanedig o bryd i'w gilydd os oes angen. Bydd hyn yn helpu i'w cadw mewn cyflwr da a chynnal eu heffeithiolrwydd.



## Sut mae'r sachau yn helpu i leihau sbwriel a gwella glendid




Rydyn ni'n cyflwyno sachau atal gwylanod ar gyfer gwastraff cyffredinol i helpu i gadw ein strydoedd yn lanach a thaclusach. Nod y fenter hon yw lleihau sbwriel a gwella glendid yn eich ardal. Drwy ddefnyddio'r sachau hyn, gallwch chi fod yn dawel eich meddwl fod eich gwastraff wedi'i storio'n ddiogel, ac atal anifeiliaid rhag rhwygo bagiau ar agor a chreu llanast.

- **Byddwch yn derbyn dwy sach atal gwylanod 70 litr, sef yr un cyfaint â bin 140 litr.**
- **Ni fydd eich diwrnod casglu yn newid a bydd eich sachau atal gwylanod yn dal i gael eu casglu ar yr un diwrnod, bob pythefnos.**
- **Bydd eich sachau eisoes wedi'u labelu pan fyddant yn cyrraedd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r labeli sy'n nodi'ch cyfeiriad ar y sachau. Os nad yw'ch sachau wedi'u labelu'n gywir, ni fyddant yn cael eu casglu.**

## Sut i ddefnyddio'r sachau atal gwylanod ar gyfer gwastraff cyffredinol

### Paratowch eich gwastraff

Rhowch eich gwastraff mewn bag sbwriel o unrhyw liw cyn ei roi yn eich sach. Peidiwch â defnyddio bagiau siopa plastig na rhoi sbwriel yn y sachau atal gwylanod yn uniongyrchol.



### Cadwch wastraff ailgylchadwy ar wahân

Sicrhewch nad oes unrhyw eitemau ailgylchadwy yn eich gwastraff cyffredinol. Gwahanwch eich gwastraff ailgylchu fel a ganlyn: Rhowch fetelau, plastig a chartonau yn eich sach goch, a rhowch bapur/cardbord yn eich sach las. Dylai gwydr fynd yn y cadi glas, a dylai gwastraff bwyd gael ei roi mewn bag gwastraff bwyd ac yna ei roi yn eich bin gwastraff bwyd brown.



# EICH SACHAU ATAL GWYLANOD NEWYDD AR GYFER GWASTRAFF CYFFREDINOL




caerdydd.gov.uk/sachauatalgwylanod

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD